## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 18 Ebrill 2017

**Presennol:** Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Dyfed Williams

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Lloyd Jones
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Einir Thomas

**1. Datganiad o ddiddordeb: -** Cyng. Gordon Owen - diddordeb personol yn eitem 3.5

**2. Cofnodion cyfarfod 21 o Fawrth 2017:**
Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. William Victor Owen.)

**3. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Cae chwarae: - Cafwyd cadarnhad fod Mr Medwyn Owen am archwilio'r offer chwarae ym mis Mai a chynhyrchu adroddiad yn syth ar ôl hynny. Adroddwyd nad oedd y cwmni GMS yn casglu'r gwair oddi ar y cae chwarae, bydd y clerc yn cysylltu â nhw am hyn.

2. Llwybrau: - 'Penderfynwyd gofyn GMS i dorri'r llwybrau tuag at ddiwedd y mis nesaf.

3. Llochesi Bws - Cytunwyd y byddai'r clerc yn cysylltu â AON i wneud cais ar gyfer atgyweirio'r ddwy loches bws a bydd ymholiad pellach yn cael ei hanfon at RAF Fali ynghylch a'r lloches bws sydd wedi ei leoli ar y gyffordd rhwng Minffordd a Ffordd Dinam.

4. Etholiadau Cynghorau Cymunedau a Tref 2017:
Nodwyd bod cadarnhad wedi ei dderbyn gan CSYM o Ganlyniadau Etholiad Diwrthwynebiad a nodwyd bod Cynghorwyr presennol Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll i gyd wedi yn eu hethol heb gystadleuaeth.

5. Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan: Mynychodd y Cyng. Gordon Owen gyfarfod diwethaf y Bwrdd Gofalwyr a chadarnhaodd fod sylw wedi cael ei roi at gyflwr y ffordd i lawr at Draeth Cymyran. Eu bwriad oedd cysylltu â'r contractwyr yn RAF Fali i weld a allai unrhyw ddeunydd gwastraff fod ar gael at y diben hwn. Gofynnwyd i'r clerc wneud cais am gopi o'u cofnodion. Diolchwyd i Cyng. Gordon Owen am fynychu'r cyfarfod ar fyr rybudd.

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd…………………………

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion: - dim

**4. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

Ceisiadau Cynllunio

**32C202 2 The Poplars, Caergeiliog** - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu.

**5. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn:**

1. Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad mis Mawrth 2017 **- nodwyd**
2. Pwyllgor Safonau - Nodyn Briffio ar Ddiddordebau Personol a Rhagfarnol

   Roedd hwn wedi ei baratoi fel canllaw ar y Cod Ymddygiad i egluro'r gofynion ar gyfer datgelu diddordebau personol a diddordebau sy'n rhagfarnu, a'r gwahaniaeth rhyngddynt. Byddai'r clerc yn gwneud copi i bob Aelod.

3. Adolygiad y Pwyllgor Safonau

   Cyflwynwyd a nodwyd: Adroddiad a gynhyrchwyd ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dilyn adolygiad o'r gofrestr o ddiddordebau aelodau mewn sampl o Gynghorau Tref a Chymuned. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gynnwys mewn pecyn gwybodaeth i Aelodau.

**6. Materion Ariannol**

**Yn y banc ar 18.4.2017 Cyfrif Cyfredol £8,139.42, Cyfrif Cadw £3,921.50**

**<u>Taliadau i'w gwneud</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Mawrth) | £178.14 | HMRC (TWE) | £44.54 |
| GMS (Invoice 1786) | £45.60 | ICT Ltd. (cynnal y wefan) | £150.00 |
| Costau Gweinyddu | £45.01 | J. D. Roberts (Archwilydd) | £69.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Dyfed Williams, eilio Cyng. Gordon Owen.)**

**7. Cyfrifon 2016/17**

Dosbarthwyd copi o'r cyfrifon terfynol ar gyfer 2016/17 i bob aelod, byddai'r clerc yn awr yn casglu'r dogfennau sy'n ofynnol i'w harchwilio gan yr archwilydd mewnol.

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd…………………………

**8. Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Newyddion Llywodraeth Cymru - Hwb o chwarter biliwn o bunnau i gymunedau gwledig Cymru
2. Tîm Ockenden a’r corff gwarchod yn ymuno â’i gilydd i adolygu ac ystyried gofal iechyd meddwl pobl hŷn
3. Newyddion diweddaraf gan Un Llais Cymru
4. Canllaw'r Cynghorydd Da
5. “Reforming Local Government-Resilient & Renewed”

**9. Unrhyw fater arall:**

Nodwyd fod Mrs Raffles yn ymddeol fel Pennaeth Ysgol y Tywyn a bod ei dirprwy Mr Emyr Williams wedi ei benodi yn ei lle.

**10. Cyfarfod nesaf 16 o Fai 2017.**

Llofnod…………………………………………….Cadeirydd…………………………